# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Strategaeth genedlaethol*

**3 Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi ac adolygu strategaeth genedlaethol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth genedlaethol") sy'n—

(a) pennu amcanion a fydd, os y'u cyflawnir, ym marn Gweinidogion Cymru, yn cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon;

(b) pennu o fewn pa gyfnodau y bydd Gweinidogion Cymru yn disgwyl cyflawni'r amcanion a bennir;

(c) dynodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru bennu amcanion mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.

(3) Rhaid i'r strategaeth genedlaethol gyntaf gael ei chyhoeddi heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad cynnal yr etholiad cyffredinol cyntaf ar ôl cychwyn yr adran hon.

(4) Heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredinol dilynol, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth genedlaethol.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r strategaeth genedlaethol ar unrhyw adeg arall.

(6) Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu diwygio'r strategaeth genedlaethol yn dilyn adolygiad, rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn—

(a) cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol gyntaf o dan yr adran hon;

(b) diwygio'r strategaeth genedlaethol.

(8) Yn y rhan hon, ystyr "etholiad cyffredinol" yw—

(a) y bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol arferol o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), neu

(b) y bleidlais a gynhelir mewn etholiad cyffredinol eithriadol o dan adran 5 o'r Ddeddf honno.

**4 Dyletswydd i weithredu'r strategaeth genedlaethol**

Rhaid i Weinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion a bennir yn y strategaeth genedlaethol ddiweddaraf a gyhoeddwyd.